



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Taliadau am ddeintyddiaeth y GIG Charges for NHS dentistry



- Os ydych wedi'ch eithrio rhag taliadau deintyddol y GIG, byddwch yn cael triniaeth a gofal yn rhad ac am ddim.
- Os ydych yn talu am driniaeth ddeintyddol y GIG, bydd tri thaliad safonol.
- Byddwch yn talu un taliad hyd yn oed os bydd angen i chi fynd at y deintydd fwy nag unwaith i gwblhau'r driniaeth.
- Bydd faint rydych yn ei dalu yn dibynnu ar y driniaeth sydd ei hangen arnoch.

Byddwch yn talu un o'r taliadau isod:

£20.00

Mae hyn yn cynnwys archwiliad, diagnosis, gofal ataliol a chynllunio ar gyfer rhagor o driniaeth.

£60.00

Mae hyn yn cynnwys pob triniaeth angenrheidiol sydd yn dod o dan y taliad £20.00 YNGHYD Â thriniaeth ychwanegol fel llenwadau, triniaeth sianel y gwreiddyn neu dynnu dannedd.

£260.00

Mae'r taliad hwn yn cynnwys pob triniaeth angenrheidiol sydd yn dod o dan y taliadau £20.00 a £60.00 YNGHYD Â choronau, dannedd gosod a phontydd.

Bydd cleifion nad oes angen cwrs llawn o driniaeth arnynt, ond sydd angen gofal brys yn hytrach, yn talu un taliad o **£30.00**. Bydd hyn yn cynnwys archwiliad, diagnosis a gofal ataliol. Os oes angen, bydd yn cynnwys pelydrau-X ac unrhyw driniaeth sydd ei hangen arnoch i atal y cyflwr dan sylw rhag dirywio'n sylweddol neu i drin poen difrifol.

Nid oes cost am bresgripsiwn y GIG.

Triniaeth am ddim gan y GIG neu gymorth i dalu costau iechyd drwy'r Cynllun Incwm Isel

Efallai y bydd gennych hawl i gael cymorth i dalu am ran neu'r cyfan o'ch triniaeth ddeintyddol gyda'r GIG.

I weld a yw hyn yn berthnasol i chi, mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan GIG Cymru: www.llyw.cymru/cynllun-incwm-isel-cymorth-gyda-chostau-iechyd-y-gig neu drwy gysylltu ag Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG ar **0300 330 1343** neu **0191 279 0565**.

- If you are exempt from NHS dental charges, you will receive free treatment and care.
- If you pay for NHS dental treatment, there are three standard charges.
- You pay one charge even if you visit more than once to complete a course of treatment.
- The amount you pay will depend on the treatment you need.

You pay one of the three charges below:

£20.00

This includes an examination, diagnosis, preventive care and planning for further treatment.

£60.00

This includes all necessary treatment covered by the £20.00 charge PLUS additional treatment such as fillings, root canal treatment or extractions.

£260.00

This charge includes all necessary treatment covered by the £20.00 and £60.00 charges PLUS crowns, dentures and bridges.

Patients not requiring a full course of treatment but instead receiving urgent care will pay a standalone charge of **£30.00**. This will include an assessment, diagnosis and preventive care. If necessary, it will include X-rays and any treatment necessary to prevent significant deterioration of the presenting condition or to address severe pain.

There is no charge for an NHS prescription.

Free NHS treatment or help with health costs via the Low Income Scheme

You may be entitled for help with all or part of the cost of your NHS dental treatment.

To see if this applies to you, further information is available from the NHS Wales website: www.gov.wales/low-income-scheme-help-nhs-health-costs or by contacting the NHS Business Services Authority on **0300 330 1343** or **0191 279 0565**.